| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **29 MEDI 2011** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2010/11** |
| PWRPAS: | **Mae’n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod 2010/11, roedd benthyciadau’r Cyngor o fewn y ffiniau a osodwyd yn wreiddiol, roedd y llôg dderbyniwyd ar ein adneuon yn £734,412 oedd fymryn yn llai na’r lefel oedd yn y gyllideb sef £799,640. Doedd dim methiant newydd gyda’r banciau y gwnaeth y Cyngor fuddsoddi arian a hwy.

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2011 ac mae’r Cyngor yn cydymffurfio’n llawn â’i ofynion. Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Ystyrir mai’r Pwyllgor Archwilio yw’r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae’r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad ar gyfer 2010/11 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2010 ar gyfer y flwyddyn ariannol (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 25/02/2010). Edrycha'r adroddiad ar:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthyca a rheolaeth dyled;
- gweithgaredd buddsoddi; a
- chydymffurfiad â’r Dangosyddion Darbodus.

## 2. Y Cefndir Economaidd

Ar adeg pennu’r strategaeth ar gyfer 2010/11, roedd disgwyl i gyfraddau llog fod yn isel oherwydd cyflwr bregus economi’r Deyrnas Unedig. Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol roedd toriadau mewn gwariant a chynnydd mewn trethi yn anorfod. Roedd y rhagolygon ar gyfer twf yn ansicr oherwydd bod defnyddwyr a chorfforaethau yn cwtogi ar eu gwariant a’r sefydliadau ariannol yn dal i fod yn gyndyn i wneud benthyciadau newydd.

Roedd dau brif ddangosydd yr economi yn symud i gyfeiriadau gwahanol – twf yn druenus tra bod chwyddiant yn cynyddu. Ym mlwyddyn galendr 2010, dim ond 1.3% oedd y twf yn yr economi. Cafodd y rhagolygon ar gyfer 2011 eu hadolygu i lawr i 1.7% ym mis Mawrth, gan y Swyddfa gyda Chyfrifoldeb am y Gyllideb. Fe gododd ffigwr blynyddol chwyddiant i 4.4% yn Chwefror 2011, oherwydd prisiau uwch nwyddau, ynni a bwyd a chynyddu TAW i 20%. Roedd y Gyfradd Sylfaenol yn dal i fod yn 0.5% wrth i’r economi geisio ymdopi gyda thwf anwastad a’r mesuriadau llym a osodwyd allan yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr y Llywodraeth

Glymblaid. Cafodd toriadau arwyddocaol eu gwneud i wariant cyhoeddus, yn enwedig i gyllid llywodraeth leol.

Cafodd cyfradd yr US Federal Reserve ei gadw ar 0.25% yn dilyn arafwch yn nhwf yr Unol Daliaethau. Fe gadwodd Banc Canolig Ewrop eu cyfradd ar 1.00%, gyda'r marchnadoedd yn disgwyl cynnydd mewn cyfraddau yn gynnar yn y Gwanwyn.

Symudodd yr argyfwng credyd o'r banciau i Sofrannau Ewrop. Cafodd statws credyd Portiwgal ag Iwerddon eu hisraddio i'r categori "B Triphlyg", ond cafodd statws credyd Groeg ei israddio i'r categori is-fuddsoddiad (neu "junc"). Cafodd statws credyd Sbaen hefyd ei israddio ond roedd yn parhau i fod yn y categori "A-Dwbl".

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd cyfraddau tymor byr y farchnad arian yn ymylol (dros nos i 3 mis). Cynnyddodd y cyfraddau 6-12 mis rhwng 0.25% i 0.30% dros gyfnod o 12 mis, i adlewyrchu'r disgwyliad y bydd y Gyfradd Sylfaenol yn cynnyddu yn hwyrach ymlaen yn 2011.

## 3. Y Gofyn Benthyca a Rheolaeth Dyled

| | Balans ar 31/3/2010 £m | Dyled Sy'n Aeddfedu £m | Dyled a Dalwyd yn ôl yn fuan £m | Benthyca Newydd £m | Trosglwyddo I Dymor Byr £m | Balans ar 31/3/2011 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 162 | | | | | 150 |
| Benthyca Tymor Byr | 5 | (4) | (1) | 0 | 5 | 5 |
| Benthyca Tymor Hir | 132 | | (13) | 0 | (5) | 114 |
| **CYFANSWM BENTHYCA** | **137** | **(4)** | **(14)** | **0** | **0** | **119** |
| Ymrwymiadau Hir-Dymor Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM DYLED ALLANOL** | **137** | **(4)** | **(14)** | **0** | **0** | **119** |
| Cynnydd/Gostyngiad mewn Benthyca £m | | | | | | 18 |

Amcangyfrifir bod angen y Cyngor i fenthyca, fel a fesurir gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf, yn £150m fel ar 31/03/11. Roedd gofyn benthyca net y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn £0m.

Mae'r Cyngor wedi ariannu yr holl wariant cyfalaf drwy fenthyca mewnol. Golyga hyn bod y risg trysorlys wedi ei leihau ar gyfer dyled allanol a buddsoddiadau dros dro. Tra disgwylir i'r sefyllfa yma barhau yn ystod 2011/12, ni fydd yn gynaliadwy yn y tymor canolig a disgwylir y bydd yn rhaid i'r Cyngor fenthyca £7.5m i bwrpas cyfalaf erbyn 2012/13.

## 4. Gweithgarwch Buddsoddi

Daeth Arweiniad diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau i rym ar 1 Ebrill 2010, ac roedd yn ailadrodd yr angen i flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Roedd hefyd yn argymell bod strategaethau i gynnwys asesu risg credyd, rhesymau ar gyfer benthyca cyn bod angen a'r defnydd o ymgynghorwyr trysorlys.

| **Buddsoddiadau** | Balans ar 31/3/2010 £m | Buddsoddiadau Wnaed £m | Aeddfedrwydd/ Buddsoddiadau Werthwyd £m | Balans ar 31/03/2011 £m |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 55.5 | 305.8 | 323.2 | 38.1 |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | | 25.0 | | 25.0 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | 4.0 | 5.0 | 4.0 | 5.0 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **59.5** | **335.8** | **327.2** | **68.1** |
| Cynnydd/ (Leihad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | 8.6 |

**Roedd diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor.** Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Cyngor sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2010/11. Roedd buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ernesau gydag Awdurdodau Lleol Eraill;
- Ernesau mewn Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA; ac
- Ernesau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu sy'n bwysig i System Fancio y wlad honno (y Deyrnas Unedig, Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sbaen, Y Swistir ac UDA).

**Risg Credyd**: Mae ansawdd credyd gwrthbartion yn cael eu hasesu a'u monitro drwy edrych ar eu statws credyd (isafswm ansawdd credyd gwrthbartion y Cyngor ydi A+ ar draws y tri cwmni asesu sef Fitch, S&P a Moody's), amnewid diffyg credydau (credit default swaps); Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) y wlad mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo; maint dyled net y wlad fel canran o'i GDP ; unrhyw fecanwaith cefnogi posibl a phris y cyfranddaliad. Mae ansawdd credyd gwrthbartion wedi cryfhau yn raddol fel a ddangosir yn y Dadansoddiad Sgôr Credyd a grynhoir isod. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn egluro'r Sgôr Credyd.

| Dyddiad | Gwerth Pwysol Cyfartalog y Sgôr Risg Credyd | Gwerth Pwysol Cyfartalog y Statws Credyd | Cyfnod Pwysol Cyfartalog y Sgôr Risg Credyd | Cyfnod Pwysol Cyfartalog y Statws Credyd | Cyfartaledd Cyfnod (dyddiau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2010 | 4.10 | AA- | 4.20 | AA- | 104 |
| 30/06/2010 | 4.08 | AA- | 4.24 | AA- | 43 |
| 30/09/2010 | 3.93 | AA- | 3.94 | AA- | 86 |
| 31/12/2010 | 3.88 | AA- | 4.15 | AA- | 169 |
| 31/03/2011 | 3.69 | AA- | 2.26 | AA+ | 109 |

**Hylifedd**: Mae'r Cyngor, yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau, yn cadw lefel ddigonol o hylifedd trwy ddefnyddio Cronfeydd Marchnad Arian, adnau dros nôs a chyfrifon galw.

**Enillion**: Roedd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posibl ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Cafodd y Gyfradd Sylfaenol ei chadw ar 0.5% trwy gydol y flwyddyn. Roedd cyfraddau tymor byr ar y marchnadoedd arian yn parhau i fod yn isel iawn a cafodd hyn effaith arwyddocaol ar incwm buddsoddi.

**Diweddariad ar ein Buddsoddiad gyda'r Heritable Bank.**
Yn dilyn arweiniad a gyhoeddwyd ym Medi 2010 gan CIPFA, a'r datblygiadau pellach yn ystod y flwyddyn ariannol, rydym bellach yn gwybod y canlynol:

Disgwylir y bydd 85c/£ yn cael ei adenill. Roedd yr ad-daliadau yn ystod 2010/11 yn 6.27% yn mis Gorffennaf, 4.14% yn mis Hydref a 4.72% yn mis Ionawr. Mae'r cyfanswm sydd wedi ei dalu yn ôl hyd at 31 Mawrth 2011 yn 50.11%.

## 5. Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £160m ar gyfer 2010/11. Ni thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig mewn unrhyw fodd yn ystod 2010/11.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2010/11 yn £135m.

Aethpwyd dros y Ffin Weithredol o £135m am gyfnod rhwng 1 Ebrill a 15 Ebrill 2010, pan oedd benthyca yn £137.5m. Digwyddodd hyn oherwydd yr oedi fu yn y trosglwyddiad stoc tai. Roedd y strategaeth am 2010/11 wedi ei selio ar y tybiaeth bod y trosglwyddiad yn mynd i fod yn digwydd ar 29 Mawrth 2010, ac y byddai £14.1m o fenthyciadau'r PWLB wedi eu had-dalu erbyn 31 Mawrth 2010. Pe bai hyn wedi digwydd, byddai'n benthyciadau ar 1 Ebrill yn £123.4m ac mi fyddem wedi bod o fewn y Ffin. Yn anffodus oherwydd y gohiriad i'r trosglwyddiad, roedd yn anochel ein bod yn mynd dros y ffin tan i'r trosglwyddiad ddigwydd a'r ddyled o £14.1m gael ei had-dalu ar 15 Ebrill 2010. Ers hynny rydym wedi gweithredu o fewn y ffin weithredol a osodwyd.

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r Dangosyddion Darbodus eraill ar gyfer 2010/11, a osodwyd yn Ch1 2010, fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion.

**Atodiad 1**

## Dangosyddion Darbodus 2010-11

### Gofyn Cyllido Cyfalaf

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2010/11 hyd at 2012/13 yn y tabl isod:

| | 31/3/2011 Amcan £000s | 31/3/2011 Gwir £000s | 31/3/2012 Amcan £000s | 31/3/2013 Amcan £000s |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 149,865 | 150,473 | 164,738 | 167,869 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol | (118,700) | (118,565) | (113,778) | (112,531) |
| **Llai:** Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | (200) | (137) | (49) | (20) |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **30,965** | **31,771** | **50,911** | **55,318** |

### Balansau a Chronfeydd

Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd y Cyngor ar gyfer 2010/11 hyd at 2012/13 fel a ganlyn:

| | 31/3/2011 Amcan £000s | 31/3/2011 Gwir £000s | 31/3/2012 Amcan £000s | 31/3/2013 Amcan £000s |
|---|---|---|---|---|
| Balansau a Chronfeydd | 51,900 | 70,394 | 52,164 | 47,804 |

## Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

### (a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £160m ar gyfer 2010/11. Ni thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig mewn unrhyw fodd yn ystod 2010/11.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2010/11 yn £135m. Mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau yr aethpwyd dros y Ffin Weithredol am gyfnod rhwng 1 Ebrill a 15 Ebrill 2010. Ceir rhagor o fanylion yn mhara. 5 ar dudalen 4 o'r adroddiad yma.

**(b) Terfynau Uchaf ar gyfer Amlygiad i Gyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol**

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei amlygu i newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu amlygiad i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | **Terfyn ar gyfer 2010/11 £/%** | **Uchafswm yn Ystod 2010/11 £/%** |
|---|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% | 100% |
| Cydymffurfiad â'r Terfynau: | Oes | Oes |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% | 0% |
| Cydymffurfiad â'r Terfynau: | Oes | Oes |

**(c) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog**

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf %** | **Terfyn Isaf %** | **Gwir Fenthyciadau ar y Gyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2011** | **Gwir % Benthyciadau ar y Gyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2011** | **Cydymffurfiad â'r Terfynau:** |
|---|---|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 0% | 25% | £4,786,940 | 4.03% | Oes |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 0% | 25% | £17,455,613 | 14.71% | Oes |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 0% | 50% | £2,110,448 | 1.78% | Oes |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0% | 75% | £7,377,108 | 6.22% | Oes |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 0% | 100% | £20,556,962 | 17.33% | Oes |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 0% | 100% | £36,803,852 | 31.02% | Oes |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 0% | 100% | £2,209,115 | 1.86% | Oes |
| 40 mlynedd a mwy | 0% | 100% | £27,352,375 | 23.05% | Oes |
| **CYFANSWM** | | | **£118,652,413** | **100.00%** | |

(d) **Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod**

Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu'r Cyngor i reoli'r risg sydd ynghlwm â buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod. Gosodwyd y terfyn ar gyfer 2010/11 ar £40m.

Polisi'r Cyngor ers y "credit crunch" yn 2007, yw cadw aeddfeddiadau buddsoddi am hyd at uchafswm o flwyddyn. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau am gyfnod hwy na blwyddyn yn ystod y cyfnod hwn.

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Sgôr Credyd**

*Sgôr:*

| **Statws Credyd Hir-Dymor** | **Sgôr** |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |
| Not rated | 11 |
| BB | 12 |
| CCC | 13 |
| C | 14 |
| D | 15 |

Mae'r gwerth pwysol cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd y buddsoddiadau yn ol maint yr adnau. Mae'r cyfnod pwysol cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd y buddsoddiadau yn ol aeddfedrwydd yr adnau.

Nod y Cyngor yw cael sgôr o 5 neu is. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaeth y Cyngor sef diogelwch yr arian sy'n cael ei fuddsoddi a'r ffin o A+ ar gyfer isafswm statws credyd ar gyfer gwrthbration y mae'r Cyngor yn buddsoddi a hwy.